# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**

Dyddiad ac Amser

**6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 7FED HYDREF, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Jasmine Jones**

**01286 679667**

**jasminejones@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 29 Medi 2025)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Hefin Underwood
Elin Hywel

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Stephen Tudor | Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli |
| Michael Sol Owen | Cynrychioli Plas Heli |
| Wil Partington | Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli |
| Andrew Picken | Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli |
| Alwyn Roberts | Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli |
| Cyng. Mike Parry | Cyngor Tref Pwllheli |
| Ifor Hughes | Cymdeithas Perchnogion Cyhod Pwllheli a'r Cylch |

### Sylwedyddion:

Desmond George
David Williams
Gwilym Jones

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025-2026.

**2. IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2025-2026.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw fater brys yn ôl barn y Cadeirydd i'w ystyried.

**6. COFNODION** 4 - 6

Y Cadeirydd i gynnig bod cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11/03/25 yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 7 - 11

Cyflwyno adroddiad yr Rheolwr Hafan a Harbwr Pwllheli.

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli ar 10/03/26.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI, 11 MAWRTH 2025

**PRESENOLDEB:**

**Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorwyr Hefin Underwood a John Brynmor Hughes

**Aelodau Cyfetholedig:** Barry Simmons (Cynrychioli Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli), Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli), Andy Vowell (Sefydliad y Bad Achub, Pwllheli), Wil Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli) a'r Cynghorydd Mike Parry (Cyngor Tref Pwllheli).

**Swyddogion :** Gerwyn Owen (Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli), Sarah Hattle (Is-reolwr ac Harbwrfeistr Pwllheli), Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Economi a Chymuned) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Eraill yn Bresennol yn Arsylwi** : Desmond George (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi) a'r Cynghorydd Gwilym Jones (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Elin Hywel, Michael Sol Owen (Plas Heli), Alwyn Roberts (Sefydliad y Bad Achub, Pwllheli) a'r Cynghorydd Richard Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned).

Croesawyd y Cynghorydd John Brynmor Hughes a Sarah Hattle (Is-reolwr ac Harbwrfeistr Pwllheli) i'w cyfarfod cyntaf.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. AELODAETH

Atgoffwyd bod aelodaeth y Pwyllgor hwn yn cynnwys cymysgedd o gynrychiolaeth megis Aelodau Cyngor Gwynedd, Aelodau Cyfetholedig a Sylwedyddion o Bwyllgorau Harbwr Aberdyfi, Abermaw a Phorthmadog.

Manylwyd bod y Pwyllgor hwn yn cydymffurfio â chyfansoddiad y Pwyllgorau Harbwr eraill yng Ngwynedd, sydd yn gosod cyfyngiadau ar aelodaeth. Cadarnhawyd y caniateir hyd at 4 Aelod Etholedig Cyngor Gwynedd a hyd at 7 Aelodau Cyfetholedig i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor hwn.

Eglurwyd bod swyddogion wedi derbyn ceisiadau gan unigolion o asiantaethau lleol sydd yn dymuno bod yn aelodau o'r Pwyllgor hwn, gan egluro nad oes modd derbyn unrhyw aelod arall gan fod aelodaeth yn llawn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, amlygwyd nad yw termau aelodaeth rhai o'r Aelodau presennol yn cyrraedd gofynion y Pwyllgor hwn. Manylwyd nad oes cofnod o enwebiad swyddogol wedi dod i law gan 'Siambr Fasnach Pwllheli' nac 'Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch'.

Cadarnhawyd bod swyddogion wedi holi'r Adran Gyfreithiol am arweiniad ar sut i gryfhau aelodaeth y Pwyllgor hwn.

Caniatawyd i'r swyddogion wneud ymholiadau pellach i gadernid aelodaeth y Pwyllgor, er mwyn sicrhau aelodaeth gywir i'r dyfodol.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 08 Hydref, 2024 fel rhai cywir.

**6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR**

Derbyniwyd Adroddiad a oedd yn cynnwys diweddariadau Cod Diogelwch Morol Porthladd, y Strategaeth Hirdymor, Carthu, Materion Ariannol, Materion Gweithredol ac ystadegau niferoedd angorfeydd a chanrannau boddhad cwsmer.

Diolchwyd i'r cyn-harbwrfeistr, Wil Williams, am 34 mlynedd o wasanaeth yn Hafan Pwllheli, wedi iddo ymddeol yn ddiweddar. Tynnwyd sylw ei fod yn arwain ar y gwaith o adeiladu'r marina, goruchwylio estyniad a pob amser yn cynnal y lefel uchaf o wasanaeth i'r cwsmeriaid. Ychwanegwyd ei fod yn angerddol iawn dros faterion yr harbwr a pob amser yn barod i rannu arweiniad a chefnogaeth. Rhannwyd dymuniadau gorau iddo yn ei ymddeoliad.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

**Carthu**
Cadarnhaodd Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli bod trafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer derbyn trwydded carthu yn pwysleisio'r angen i adennill tir yn ogystal â chyflwyno tirwedd addas ar gyfer rhywogaethau natur a welir ar yr arfordir.

Holiwyd am drefniadau gwaredu ym Mae Ceredigion, gan gadarnhau byddai angen trwydded forol i waredu unrhyw laid i'r Bae. Ymhelaethwyd bod cais yn cael ei wneud i broffilio ble bydd y llaid sydd yn gadael yr harbwr yn setlo, mewn cydweithrediad ag Ymgynghoriaeth Gwynedd.

Mewn ymateb i ymholiad am ddefnyddio cwch i gludo llaid i Fae Ceredigion er mwyn ei waredu yno, cadarnhaodd Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli byddai hyn yn costio llawer i'r gwasanaeth, gan fyddai cost o £1miliwn er mwyn cludo'r cwch i Bwllheli cyn cychwyn ar y broses. Cadarnhawyd nad oes ystyriaeth yn cael ei roi i gynllun o'r fath oherwydd nad yw'n ymarferol o fewn cyllidebau'r Harbwr. Fodd bynnag, cadarnhawyd mai'r bwriad yw sicrhau bod y llaid yn cael ei bwmpio i'r Bae.

Pryderwyd am gostau blynyddol y broses carthu a chynigwyd syniad amgen er mwyn mynd i'r afael a'r her. Manylwyd ar y syniad o adeiladu grwyn ger Carreg yr Imbyll er mwyn atal tywod rhag cyrraedd yr harbwr o gyfeiriad Abererch, gan achosi i lai o laid setlo o fewn yr harbwr. Mewn ymateb, cadarnhaodd Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli bod y costau o faethu'r tywod o'r Harbwr i draeth Carreg y Defaid wedi cael ei gyfarch gan y llywodraeth. Ymhelaethwyd bod yr Harbwr yn rhydd i werthu gweddill y tywod am elw, gan gadarnhau bod yr holl elw a wnaed yn cael ei ychwanegu i Gronfa Carthu'r Harbwr. Nodwyd hefyd bod Cynllun Rheoli Llifogydd yn weithredol ar y cyd gydag Ymgynghoriaeth Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru, gydag amryw o opsiynau megis adeiladu grwyn wedi cael ei gynnwys ynddo. Fodd bynnag, eglurwyd bod oediad gyda'r Cynllun hwn gan nad ydi o wedi cael ei drafod fel rhan o gynllun busnes ardal Pwllheli gan fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd yn arwain ar y prosiect. Pwysleisiwyd bod swyddogion yn ymdrechu yn gyson er mwyn cael diweddariad ar y mater hwn mor fuan â phosib.

Datganodd Pennaeth Cynorthwyol Adran Economi a Chymuned bod yr her o ddelio gyda'r llaid yn argyfyngus. Derbyniwyd bod gan asiantaethau allanol bryderon amgylcheddol ynglŷn â chais yr

Harbwr am drwydded i'w bwmpio i Fae Ceredigion. Cadarnhawyd bod yr Harbwr yn cwblhau asesiad amgylcheddol, ariannol a chymdeithasol ar y broses wrth gyflwyno'r cais am drwydded. Gobeithiwyd bydd sefydliadau lleol ac aelodau'r Pwyllgor hwn yn cyfrannu i'r asesiad hwnnw er mwyn dwyn perswâd ar ddatrysiad hirdymor i'r her hon.

Tynnwyd sylw bod yr Afon Erch wedi newid ei chwrs a bod hyn, yn ogystal â thywydd stormus diweddar, wedi arwain at gynnydd yn lefelau'r llaid sydd yn setlo o fewn yr harbwr. Mynegwyd pryder na fyddai modd i gychod mawr ddefnyddio'r basin yn y dyfodol agos heb ddatrysiad i'r her hon a dim ond badau personol all gael budd o'r harbwr. Ymhelaethwyd nad oes modd tynnu 10,000 tunnell ychwanegol fel y gwnaed ym mis Hydref 2024 gan fod y lagŵn wedi cael ei lenwi ar gost o oddeutu £750,000 a bod angen amser iddo sychu cyn symud llaid unwaith eto.

Ystyriwyd cau ardal y 'Bae Bach' er mwyn gwella rhediad yr afon a lleihau'r llaid sydd yn setlo o fewn yr harbwr. Mewn ymateb i'r ystyriaeth, cadarnhaodd Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli bod hyn yn ystyriaeth o fewn cynllun yr Harbwr o fewn y cais am drwydded pwmpio'r llaid i Fae Ceredigion. Eglurwyd y bwriedir defnyddio'r cerrig sydd yn ardal y Bae Bach eisoes er mwyn adeiladu wal, gan waredu'r llaid y tu hwnt iddo er mwyn gallu adennill tir. Gobeithiwyd bydd y cynllun hwn ar y cyd gyda phwmpio llaid i Fae Ceredigion yn ddatrysiad hir dymor i'r heriau presennol, gan fod adroddiadau ecolegol yn cadarnhau bod oddeutu 90% o'r llaid yn cael ei dynnu i mewn o'r môr i'r harbwr.

Cadarnhawyd bod swyddogion yn cyfarfod gydag Ymgynghoriaeth Gwynedd yn fuan er mwyn sicrhau bod y cais am drwydded yn llwyddiannus, gan sicrhau bydd pryderon y pwyllgor hwn yn cael eu hamlygu er mwyn canfod datrysiadau. Ystyriwyd cyfarfod gyda'r aelodau er mwyn derbyn mewnbwn ar y ffordd ymlaen wedi i'r cais am drwydded gael ei gyflwyno, pan yn amserol.

**7. PLAS HELI**

Cyflwynwyd yr adroddiad llafar gan gynrychiolydd Clwb Hwylio Pwllheli.

Diweddarwyd bod gwaith adnewyddu sylweddol ar waith, gan gynnwys dymchwel grisiau, parapet ac adnewyddu gwaith coed a oedd wedi pydru. Ychwanegwyd bod gwaith tarmac wedi cael ei wneud er mwyn gwella sefyllfa parcio ac edrychiad cyffredinol yr ardal. Nodwyd hefyd bod drysau mynediad newydd hefyd wedi cael eu gosod.

Edrychwyd ymlaen at dymor prysur iawn dros gyfnod yr Haf, gan egluro mai'r digwyddiad cyntaf i gael ei gynnal ym Mhlas Heli bydd cynhadledd yr RYA (Royal Yatching Association), cyn y Pasg. Ymfalchïwyd bod nifer o asiantaethau wedi bod mewn cyswllt gyda Phlas heli ar gyfer cynnal digwyddiadau, a bod y calendr yn llawn hyd nes 2027.

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 07 Hydref, 2025.**

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00 pm a daeth i ben am 7.10 pm.

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
| **Dyddiad:** | 7 Hydref 2025. |
| **Awdur:** | Rheolwr Hafan Pwllheli a'r Harbwr – Sarah Hattle. |
| **Gwasanaeth:** | Hafan a Harbwr Pwllheli, Adran Economi a Chymuned |
| **Teitl:** | Diweddariad ar faterion Rheoli Gwasanaeth |

1 **CEFNDIR**

1.1 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r harbwr, yn ogystal â derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Pwllheli.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar Harbwr Pwllheli am y cyfnod hyd at ddiwedd mis Medi 2025, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

2. **ADRODD AR FATERION RHEOLI GWASANAETH**

2.1 Cyflwynir y crynodeb isod mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaeth.


**i) <u>Data Perfformiad</u>**

2.2 Cafodd y wybodaeth am yr angorfeydd sydd ar gael a'r nifer sy'n eu dal ei gasglu ynghyd fel rhan o drefniadau monitro a rheoli perfformiad y Gwasanaeth Harbwr a'r Hafan.

| **Ardal Angori** | **2023/4** | **2024/5** | **2025/6** |
|---|---|---|---|
| Cytundebau Angori | 47/49 (96%) | 39/49 (80%) | 38/44 (86%) |
| Ardal 5 | 11/11 | 9/11 | 8/8 |
| Ardal 4 | 8/8 | 7/8 | 8/8 |
| Ardal 3 | 18/20 | 14/20 | 16/20 |
| Pontŵn Pysgota | 10/10 | 9/10 | 6/8 |

2.3 Fel y nodwch, gall lefel y capasiti mewn ardaloedd gwahanol o'r harbwr amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ar gyfer ardal 5 mae hyn oherwydd cynnydd mewn silt, ar gyfer y pontŵn pysgota mae nifer yr angorfeydd yn dibynnu ar beth yw maint y cychod.

2.4 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn casglu data ar lefelau boddhad cwsmeriaid angorfeydd a docfeydd:




d.s. Mae'r ffigyrau yn cyfuno cwsmeriaid yr harbwr a rhai sy'n dal docfeydd yn y marina.

2.5 Yn y gorffennol, roedd yr arolwg yn cael ei gynnal ym mis Ebrill/Mai. Eleni, rydym wedi trefnu i'r arolwg ddechrau ym mis Hydref i sicrhau ein bod yn cael adborth perthnasol o'r tymor presennol. Yn gyffredinol, mae bodlonrwydd wedi gwella ac eithrio ar gyfer golwg cyffredinol yr Harbwr a dyfnder y Sianel. Mae'r tueddiad is o ran y sgôr ar gyfer golwg cyffredinol yn arwydd o isadeiledd sy'n heneiddio ac rydym yn ymwybodol o hyn ac mae gwelliannau wedi eu cynllunio, gweler adran 2.11. Trafodir dyfnder y sianel yn adran 2.10.

**ii) <u>Diogelwch yr Harbwr</u>**

2.6 Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol. Gellir gweld y fersiwn ddiweddaraf yn unrhyw un o swyddfeydd harbwr Cyngor Gwynedd. I sicrhau ein bod yn cydymffurfio, caiff ein harbyrau eu harchwilio'n rheolaidd gan arbenigwr allanol. Rydym yn falch o gadarnhau penodiad diweddar Mr Owen Morgan, Rheolwr Harbwr ar gyfer Cyngor Ceredigion, fel ein 'Person Dynodedig' newydd. Bydd Mr Morgan yn cynnal yr archwiliad nesaf yn ystod misoedd y gaeaf a bydd yn rhoi arweiniad i ni i sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion diweddaraf y PMSC. Yn dilyn yr archwiliad hwn bydd y gwasanaeth yn cyhoeddi fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r cod ar wefan gyhoeddus y Cyngor: [www.gwynedd.llyw.cymru](www.gwynedd.llyw.cymru).

2.7 Yn ystod mis Awst fe wnaeth deilydd angorfa fynd yn ddifrifol wael yn ystod y nos. Fe wnaeth y gweithiwr diogelwch nos roi cymorth cyntaf iddo ac fe ddaeth yr ambiwlans, yr heddlu a gwyliwr y glannau yno. Er ymdrechion gorau pawb bu farw'r unigolyn yn oriau mân y bore ar ei gwch yn y marina. Mae'r aelod o'r tîm oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad yn cael ei gefnogi ac nid oedd angen amser i ffwrdd.

2.8 Un flaenoriaeth allweddol i'r gwasanaeth yw sicrhau mordwyo diogel i'r holl forwyr sy'n defnyddio ein dyfrffyrdd. I gefnogi hyn rydym yn archwilio'r holl gymhorthion mordwyo yn rheolaidd. Yn ychwanegol, mae Tŷ'r Drindod yn archwilio ein cymhorthion mordwyo a'n cofnodion yn flynyddol. Dyma grynodeb o ymweliadau Tŷ'r Drindod dros y 12 mis diwethaf:

| **Dyddiad** | **Gweithgaredd** | **Asesiad/Sylwadau** |
|---|---|---|
| 14/5/2025 | Archwilio cofnodion | Boddhaol<br>“roedd popeth mewn trefn ac nid oedd unrhyw faterion yn codi sydd angen sylw pellach.” |
| 11/10/2024 | Archwiliad Cymhorthion Mordwyo | "canfuwyd bod yr holl gymhorthion mordwyo mewn cyflwr da ac effeithlon". |

**iii) Adnoddau a Chyllideb**

2.9 Mae crynodeb o'r gyllideb ar gyfer Harbwr Pwllheli i'w gweld isod:

| **HARBWR PWLLHELI** | **Adolygiad Awst 2025 – Perfformiad Ariannol am y Cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026** | | |
|---|---|---|---|
| | **Y GYLLIDEB AM Y CYFNOD 1/4/25 HYD AT 31/3/26** | **Y GWARIANT A RAGWELIR 1/4/25 HYD 31/3/26** | **TROS/(TAN)** |
| **Gweithwyr** | **£36,472** | **£35,868** | **-£604** |
| | | | |
| **Adeiladau** | **£16,940** | **£9,311** | **-£7,629** |
| | | | |
| **Cludiant** | **£730** | **£23** | **-£707** |
| | | | |
| **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | **£15,830** | **£1,012** | **-£14,818** |
| | | | |
| **Incwm** | **-£48,930** | **-£40,982** | **£7,948** |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **£21,042** | **£5,231** | **-£15,811** |

| HAFAN PWLLHELI | Adolygiad Awst 2025 – Perfformiad Ariannol am y Cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026 | | |
|---|---|---|---|
| | Y GYLLIDEB AM Y CYFNOD 1/4/25 HYD AT 31/3/26 | Y GWARIANT A RAGWELIR 1/4/25 HYD 31/3/26 | TROS (TAN) |
| Gweithwyr | £387,898 | £355,508 | -£32,390 |
| | | | |
| Adeiladau | £569,470 | £614,964 | £45,494 |
| | | | |
| Cludiant | £11,440 | £6,760 | -£4,680 |
| | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | £118,810 | £125,431 | £6,621 |
| | | | |
| Gwariant un-tro – Wedi ei ariannu o'r Cronfeydd wrth gefn | £0 | -£17,000 | -£17,000 |
| | | | |
| Incwm | -£1,898,440 | -£1,905,845 | -£7,405 |
| Cyfraniad o'r Cronfeydd wrth Gefn tuag at y Costau Un-tro | £0 | £17,000 | £17,000 |
| | | | |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **-£810,822** | **-£803,183** | **£7,639** |

### iv) Diweddariadau allweddol eraill

2.9.1 **Grant Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru.** A ninnau wedi cyflwyno cais grant yn gynharach eleni, ym mis Awst cawsom hysbysiad i ddweud ein bod wedi llwyddo i sicrhau £67,688.21 o gyllid. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i newid y pontŵn pysgota masnachol gyda phontŵn tebyg gan hefyd adeiladu rheslau cychod gweini newydd. Mae'r holl waith wedi ei drefnu i ddigwydd yn nechrau 2026.

2.11 **Carthu.** Ym mis Mawrth, comisiynwyd YGC i baratoi dau gais trwydded forol mewn perthynas â charthu. Mae'r drwydded gyntaf ar gyfer carthu – cynnal a chadw ble mae'r awdurdod eisiau pwmpio deunydd sydd wedi'i garthu allan i'r môr. Mae'r ail drwydded ar gyfer gwaith carthu cyfalaf fyddai'n cynnwys adennill tir. Rhagwelir y bydd y broses efo'r ceisiadau yn cymryd 12 mis. Mae'r cynnydd hyd yma fel a ganlyn:

- Carthu – cynnal a chadw: Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer ymgeisio am y drwydded forol hon yn mynd rhagddo i'w gyflwyno ym mis Ebrill 2026. Intertek fu'n llwyddiannus yn ystod y broses dendro ac maent yn modelu symudiad a dyddodiad unrhyw ddeunydd posibl gaiff ei bwmpio allan i'r môr. Cynhaliwyd

cyfarfodydd hefyd rhwng Intertek a Royal Smals gan edrych ar gynllunio y math yma o waith carthu sy'n sicrhau bod y gwaith modelu mor realistig â phosibl.

- **Gwaith Carthu Cyfalaf:** Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer ymgeisio am y drwydded forol hon yn mynd rhagddo i'w gyflwyno ym mis Ebrill 2026. Mae pedwar safle adennill tir posibl wedi cael eu hadnabod. Rydym yn awr yn asesu os oes modd adeiladu ar bob safle a'r effaith amgylcheddol a'r holl arolygon angenrheidiol.

2.12 **Adeilad yr Harbwr a'r Marina.** Rydym wedi sicrhau adnoddau i bensaer ymgysylltu gydag aelodau'r tîm a chwsmeriaid i lunio cynlluniau i foderneiddio Adeilad yr Harbwr a'r Marina, sydd yn ei hanfod heb newid ers iddo gael ei adeiladu yn nechrau'r 1990au. Gwahoddwyd penseiri i gyflwyno methodoleg a phrisiau yn ystod mis Awst, mae'r rhain ar hyn o bryd yn cael eu hadolygu, dylai'r pensaer llwyddiannus gael ei benodi yn ystod wythnos gyntaf mis Hydref.

2.13 **Diogelwch yn ystod y nos.** Yn unol â'r gofynion caffael gwahoddwyd tendrau ar gyfer darpariaeth diogelwch yn ystod y nos. Bydd y cwmni newydd, yn cymryd y contract drosodd o'r 1 Hydref 2025.

## 3. ADRODD AR FATERION GWEITHREDOL Y GWASANAETH

3.1 **Staffio:** Ar ddiwedd mis Ebrill 2025, fe wnaeth Gerwyn Owen, y Rheolwr Masnachol, sefyll i lawr ar ôl bron i dair blynedd i ymgymryd â swydd arall yng Nghyngor Gwynedd. Ar ôl rownd recriwtio penodwyd Sarah Hattle, oedd wedi bod yn llenwi'r swydd dros dro, fel Rheolwr yr Harbwr a'r Marina ar ddechrau mis Awst. Cynhelir adolygiad o'r strwythur staffio ar gyfer Hafan a Harbwr Pwllheli cyn recriwtio unrhyw aelodau pellach i'r tîm.

## 4. ARGYMHELLION:

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.